Cofnodion cyfarfod cyffredin **CYNGOR TREF RHUTHUN** a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Ffordd Wynnstay, Rhuthun, nos Lun, 23 Ebrill 2018, am 7:00pm.

PRESENNOL: Y Cynghorwyr Jim Bryan (Maer) ac Ian Lewney (Dirprwy Faer)
Y Cynghorwyr Keiran Allsopp-Robson, Stephen Beach, Gavin Harris, Ken Hawkins, John Wynne Hughes, Menna Jones, Robert Owen-Ellis, Ifan Wyn ac Emrys Wynne. Hefyd yn bresennol y Cynghorydd Sir Bobby Feeley.

Croesawodd y Maer aelodau'r cyhoedd i'r cyfarfod fel rhan o Wythnos Dyfodol Rhuthun.

239. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Dave Snape, Rosie Hughes, Anne Roberts a Heather Williams.

240. CYFLWYNIAD GAN GYMDEITHAS ONLINE WATCH LINK ASSOCIATION SIR Y FFLINT A WRECSAM

Croesawodd y Maer Denise Edwards, Prif Swyddog a'r Llywodraethwr Bill Brereton, a roddodd gyflwyniad ar waith y Gymdeithas uchod a'r gweithgareddau arfaethedig yn Rhuthun. Gwnaethant bwysleisio eu bod yn fudiad elusennol ar wahân i Heddlu Gogledd Cymru, sy'n ymwneud â diogelwch a chydnerthedd cymunedol. Estynnwyd gwahoddiad i'r aelodau ymweld â'u swyddfeydd yn yr Wyddgrug.
***PENDERFYNWYD**: nodi'r cyflwyniad.*

241. CYFLWYNIAD YNGHYLCH KINGDOM

Gan nad oedd y swyddog a ddisgwylid i gyflwyno'r cyflwyniad yn bresennol
***PENDERFYNWYD**: gohirio'r eitem tan y cyfarfod nesaf.*

242. DATGAN BUDDIANNAU

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

243. ADRODDIAD Y MAER

Adroddodd y Maer ei fod wedi bod yn y digwyddiadau a ganlyn.

28.03 Digwyddiad Hafal yn Neuadd y Pentref, Trefnant
Cyfarfod Pwyllgor Gefeillio Rhuthun
29.03 Cyfarfod gyda Jon Chapman, Rheolwr Strydlun a Phriffyrdd, De Sir Ddinbych
04.04 Agoriad swyddogol siop Mr Wheely Shine, Stryd y Ffynnon, Rhuthun
05.04 Dathliad arddangosfa 'Ar gyfer y Bwrdd' gan Gwmni'r Gofaint Aur yn y Ganolfan Grefft
07.04 Taith i weld y datblygiadau diweddaraf yng Nghlwb Peldroed Rhuthun a gwylio'r gêm
11.04 Cyfarfod gweithgor Dyfodol Rhuthun
16.04 Cyfarfod Pwyllgor Gŵyl Rhuthun
18.04 Cyflwyniad gan Theatr Ieuenctid Rhuthun yn y Clwb Rygbi
20.04 Cyfarfod chwarterol Cymdeithas Cynghorau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru yn y Trallwng

244. ADRODDIADAU'R AELODAU

Cyng. Keiran Allsopp-Robson	Cyfarfod Gweithgor Dyfodol Rhuthun.
Cyng. Stephen Beach	Cyfarfod Gweithgor Dyfodol Rhuthun, digwyddiad ymgysylltu Panel Adolygu Annibynnol Cymru yn Wrecsam, cyfarfodydd Pwyllgor Gŵyl Rhuthun, Atgofion Rhuthun yn y Llyfrgell, cyfarfod gydag Andy Edwards, Cadeirydd Clwb Peldroed Rhuthun ynghylch mynediad i'r anabl yn y clwb peldroedd a chyfarfod chwarterol Cymdeithas Cynghorau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru yn y Trallwng.
Cyng. Gavin Harris	Cyfarfod Gweithgor Dyfodol Rhuthun, cyfarfod gyda Tom Booty, Adran

	Rheoli Asedau Cyngor Sir Ddinbych, cyfarfod gyda Jon Chapman, Rheolwr Priffyrdd a Strydwedd De Sir Ddinbych.
Cyng. Ken Hawkins	Ymgyrch tacluso'r dref.
Cyng. Robert Owen-Ellis	Mawrth:- Pedair sesiwn Banc Bwyd, cyfarfod Cymdeithas Llywodraethwyr Sir Ddinbych, cyngerdd myfyrwyr TGAU a Safon Uwch Ysgol Brynhyfryd, cyfarfod Gweithgor Dyfodol Rhuthun ac ymgyrch tacluso'r dref. Ebrill:- Pedair sesiwn Banc Bwyd a chyfarfod is-bwyllgor Cangen Rhuthun y Banc Bwyd i drafod dyfodol y banc bwyd.
Cyng. Menna Jones	Ymgyrch tacluso'r dref, cyfarfod gyda Jon Chapman, Rheolwr Priffyrdd a Strydwedd De Sir Ddinbych a chyfarfod Gweithgor Dyfodol Rhuthun.
Cyng. Anne Roberts	Cyfarfodydd Ymlaen Rhuthun, cyfarfod Statws Croesawu Bysiau Moethus Rhuthun, cyfarfod Gweithgor Dyfodol Rhuthun, prosiect 'gweithio gyda'n gilydd' Ysgol Borthyn yn y Ganolfan Grefft, cyfarfod Drysau Agored Cymdeithas Ddinesig Rhuthun a'r Cylch, cyfarfod y Grŵp Dinesydd da, agoriad swyddogol siop Mr Wheely Shine, Fforwm i'r rhai dros 50 yn Llys Erw, cyfarfod Gweithgor Dyfodol Rhuthun a chyfarfod Cymdeithas Ddinesig Rhuthun a'r Cylch.
Cyng. Heather Williams	Mawrth:- cyfarfod Statws Croesawu Bysiau Moethus Rhuthun, cyfarfod Pwyllgor Rheoli Awelon, ymgyrch tacluso'r dref. Ebrill:- Cyfarfod Gweithgor Dyfodol Rhuthun.
Cyng. Ifan Wyn	Ymgyrch tacluso'r dref.
Cyng. Emrys Wynne	Cyflwyno deiseb i Fanc Barclays, Dinbych, i alw am gadw canghennau Rhuthun a Dinbych.

245. COFNODION Y CYFARFOD CYFFREDIN BLAENOROL

PENDERFYNWYD*: cadarnhau bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Mawrth 2018 yn gywir.*

246. MATERION YN CODI

Gofynnodd aelod am ragor o wybodaeth gan Grŵp Llandrillo Menai ynghylch cau Coleg Cymunedol Dinbych yn dilyn y cyfarfod Llywodraethwyr ar 19 Ebrill 2018.

247. COFNODION Y PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU

Tynnodd Gadeirydd y pwyllgor sylw at eitemau o gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Ebrill 2018.

PENDERFYNWYD*: derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Ebrill 2018.*

248. COFNODION Y PWYLLGOR AMWYNDERAU

Tynnodd Gadeirydd y pwyllgor sylw at eitemau o gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Ebrill 2018.

PENDERFYNWYD*: derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Ebrill 2018 a gwneud ymholiadau ynghylch cael dau ddiwrnod parcio am ddim ychwanegol, gyda Chyngor Tref Rhuthun yn talu'r costau.*

249. DINESYDD DA / PERSON IFANC / GRŴP CYMUNEDOL Y FLWYDDYN 2018

Gofynnodd yr aelodau am ystyried yr eitem hon fel eitem Rhan II ar ddiwedd y cyfarfod.

PENDERFYNWYD*: trafod yr argymhellion yn breifat ar ddiwedd y cyfarfod.*

250. COFRESTRIAD DIOGELU DATA

Derbyniodd yr aelodau hysbysiad am y gofyniad i adnewyddu cofrestriad diogelu data Cyngor Tref Rhuthun ar gost o £35.00.

PENDERFYNWYD*: adnewyddu'r cofrestriad diogelu data.*

251. RHEOLIADAU DIOGELU DATA CYFFREDINOL (GDPR)

Esboniodd y Clerc y gweithredoedd sy'n digwydd i baratoi ar gyfer cyflwyniad y Rheoliadau, sef sicrhau diweddaru'r Polisi Diogelu Data a Gwybodaeth, dosbarthu ffurflen caniatâd i gadw gwybodaeth gyswllt a hysbysiad preifatrwydd e-bost, yn dilyn cwblhau arolwg data. Esboniodd hefyd bod Cynghorau Tref a Chymuned yn aros am gadarnhad a oes angen iddynt benodi Swyddog Diogelu Data ai peidio. Holodd yr aelodau a oedd unrhyw hyfforddiant ar gael i Gynghorwyr ynghylch y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol.

***PENDERFYNWYD**: gwahodd Gary Williams, Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol Cyngor Sir Ddinbych, i anerch y cynghorwyr ar ofynion y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol.*

252. WYTHNOS DYFODOL RHUTHUN

Darparodd y Cynghorydd Gavin Harris ddiweddariad, yn amlinellu bod y Gweithgor wedi cyfarfod a bod yr aelodau'n cyflawni tasgau ar gyfer wythnos Dyfodol Rhuthun, i'w chynnal rhwng 22 a 30 Ebrill. Yr holl fanylion ar www.rhuthun.com. Roedd nifer o fusnesau lleol wedi cyfrannu deunyddiau tuag at yr arddangosfa yn Stiwdio 2 yn y Ganolfan Grefft ac anogodd bawb yn y cyfarfod i ymweld â'r arddangosfa a mynd i ddigwyddiadau'r wythnos.

***PENDERFYNWYD**: nodi'r diweddariad.*

253. CLWB IEUENCTID RHUTHUN

Gofynnodd y Maer i'r aelodau ystyried y ddarpariaeth clwb ieuenctid yn Rhuthun, sef pedair awr yr wythnos yn y Neuadd Ymarfer ar hyn o bryd. Gofynnwyd i fyfyrwyr Ysgol Brynhyfryd am eu barn, a gwnaethant esbonio eu bod yn cymryd rhan yng ngweithgareddau Gwobr Dug Caeredin a'u bod yn medru gyrru i Ddinbych i gymryd rhan yn y gweithgareddau. Byddai ganddynt ddiddordeb mewn darpariaeth chwaraeon amgen fel cicfocsio. Cynigiodd y Cynghorydd Gavin Harris ychwanegu adran am sylwadau ar hyn i'r arddangosfa.

***PENDERFYNWYD**: gwahodd cynrychiolydd o Wasanaethau Ieuenctid Cyngor Sir Ddinbych i ddod i gyfarfod.*

254. COFFÁU CANMLWYDDIANT DIWEDD Y RHYFEL BYD CYNTAF

Yn sgîl absenoldeb y Cynghorydd Rosie Hughes

***PENDERFYNWYD**: gohirio'r eitem hon tan y cyfarfod nesaf.*

255. CYNHADLEDD AR Y CYD SLCC AC UN LLAIS CYMRU

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried gwahoddiad i fynd i gynhadledd ar y cyd yn Llandrindod ar 16 Mai ar gost o £75 + TAW. Mynegodd y Clerc ddiddordeb mewn mynd i'r gynhadledd gan fod eitem ar y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol ar yr agenda.

***PENDERFYNWYD**: caniatáu i'r Clerc fynd i'r Gynhadledd ar y cyd ar 16 Mai.*

256. CCLA INVESTMENT MANAGEMENT LIMITED

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried buddsoddiad posibl gyda Chronfa Adneuo CCLA, yn dilyn yr hysbysiad gan Undeb Credyd Cambrian eu bod yn cyflwyno uchafswm o £30,000 ar falansau. Gofynnodd aelod a oedd modd i'r Cyngor Tref fuddsoddi mewn 'premium bonds' gan eu bod yn cynnig gwell cyfradd enillion.

***PENDERFYNWYD**: cyfeirio'r mater i'r Is-bwyllgor Craffu Ariannol i'w ystyried yn fanwl.*

257. CYFRIFON AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2018

Gofynnwyd i'r aelodau dderbyn a chymeradwyo'r cyfrifon am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2018. Nododd aelod y dylid ychwanegu'r diffibrilydd a'r cabinet at y Gofrestr Asedau. Roedd gan rai penawdau symiau wedi'u dyrannu nad oeddynt wedi'u defnyddio, a chytunwyd i ryddhau arian a ddyrannwyd ar gyfer Mynwent Llanrhydd a Pharth y Cyhoedd i'r gronfa gyffredinol.

***PENDERFYNWYD**: derbyn a chymeradwyo'r cyfrifon ac i'r Maer eu llofnodi.*

258. DATGANIAD ARIANNOL

Gofynnwyd i'r aelodau gymeradwyo'r Datganiad Ariannol am y cyfnod yn diweddu 31 Mawrth 2018.

***PENDERFYNWYD**: derbyn a chymeradwyo'r Datganiad Ariannol am y cyfnod yn diweddu 31 Mawrth 2018.*

259. HYSBYSIAD ARCHWILIAD ALLANOL

Hysbyswyd yr aelodau mai'r trefniadau archwiliad allanol ar gyfer 2017/18 gan BDO oedd arddangos yr hysbysiad rhwng 21 Mai a 3 Mehefin, gyda'r cofnodion ar gael rhwng 4 Mehefin a 29 Mehefin, a'u cyflwyno i BDO erbyn dyddiad yr archwiliad, sef 2 Gorffennaf 2018.

***PENDERFYNWYD**: derbyn yr hysbysiad.*

260. CYFRIFON I'W TALU

***PENDERFYNWYD**: cymeradwyo talu'r eitemau a ganlyn.*

5153	Cyfarfod chwarterol Cymdeithas Cynghorau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru	2 ginio		£32.00
5154	Sandra Williams	Cyflog dyledus		£34.20
5155	Viking	Papur A4 a 100 o stampiau ail ddosbarth	*	£94.96
5156	Smith of Derby	Cytundeb gwasanaethau clociau tair blynedd tan 31/01/21	*	£620.40
5157	CoombsJones	Ffi dechreuol prosiect Rhuthun y Dyfodol		£1,150.00
5158	Llanfwrog CIC, The Centre	Torri glaswellt – Mawrth ac Ebrill 2018		£528.39
5159	Blachere Illumination	Llogi'r goleuadau – cytundeb tair blynedd, 2il flwyddyn 2018	*	£3,789.25
G.S.	Canda Copying	Rhentu a chopïau isafswm	*	£129.14
5160	Canda Copying	Copïau du a gwyn ychwanegol	*	£20.81
5161	Canda Copying	Copïau lliw ychwanegol	*	£26.94
5162	Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi	Treth incwm ac Yswiriant Gwladol		£282.30
5163	Marian Rees	Gwasanaeth cyfieithu ar y pryd	*	£180.00
5164	Aerial Electrics Limited	Goleuadau ar y coed Nadolig	*	£3,952.80
5165	Aerial Electrics Limited	Adnewyddu'r tanwyr ar lifoleuadau wyneb y de Eglwys Sant Pedr	*	£135.00
5166	Canda Copying	Copïau lliw ychwanegol terfynol	*	£1.39
5167	Canda Copying	Copïau du a gwyn ychwanegol terfynol	*	£1.01
5168	Canda Copying	Rhentu a chopïau isafswm terfynol	*	£41.90

RHAN DAU

Cynigiwyd ac eiliwyd cynnal y cyfarfod yn breifat ar gyfer yr eitem a ganlyn. Gadawodd y cyhoedd y Siambr ar y pwynt hwn.

261. DINESYDD DA / PERSON IFANC / GRŴP CYMUNEDOL Y FLWYDDYN 2018

Derbyniodd yr aelodau gofnodion cyfarfod y Grŵp Dinesydd Da, a'r argymhellion ynghylch y rhai i dderbyn y gwobrau eleni.

***PENDERFYNWYD**: derbyn y cofnodion a chytunwyd ar enwebiadau enillwyr y gwobrau yn 2018 yn unfrydol.*

262. DYDDIADAU'R CYFARFODYDD NESAF

***PENDERFYNWYD**: cadarnhau mai dyddiad y Cyfarfod Blynyddol fydd nos Lun, 14 Mai a dyddiad y cyfarfod cyffredin nesaf fydd nos Lun, 21 Mai 2018 am 7.00pm.*